

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 7fed o FEDI 2020 TRWY GYFRWNG ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Margaret Rees (yn y gadair), Alan Lewis, Geoff Hewitt, Linda Williams, Caroline Williams, Aled Williams, a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Ian Evans, Tyssul Evans, Heddwyn Jones, Tracey James, Geraint Rosser a Meic Bowen

2425 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Nodwyd bod y Cynghorwyr Ian Evans a Tyssul Evans yn cael trafferth cysylltu â'r Cyfarfod trwy'r ffon a'r We.

2426 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 13/07/2020 fel rhai cywir.

2427 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2410 - Co-op Pontiets - Nodwyd bod y Co-op ym Mhontiets yn agor cyn bo hir. Penderfynnwyd cysylltu gyda Rhys Price ynglŷn â grantiau tuag at Barc Pontiets.

Tud 1. Cofnod Rhif 2410 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Arhoswn am ymateb pellach oddiwrth y Cyngor Sir

Tud 1. Cofnod Rhif 2410- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltw'n eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.

Tud 1. Cofnod Rhif 2410 - Goleuadau Tai Ffoslas - Aros am ymateb oddiwrth Gwmni Persimmon.

Tud 1. Cofnod Rhif 2410 - Llwybr Treftadaeth Pontiets - Arhoswn am ymateb oddiwrth Bassett & McGregor.

Tud 2. Cofnod Rhif 2421 – Cwn stwrlyd – Mae'r mater yn nwylo'r Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2428 Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Cais am gyfraniad tuag at Byst Pêl-droed newydd - Wedi derbyn eglurhad pellach a thrafodaeth lwyr penderfynwyd gohirio'r mater ar hyn o bryd.

Cynghorwyr Linda Williams ac Alan Lewis yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2429 Moreia Meinciau - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Linda ac Alan yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2430 Nasareth Pontiets - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2431 Cylch Meithrin Carwe – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

Ceisiadau Cynllunio

2432 a) Rhif y Cais – PL/00017 – Cwm y Fantais, Pontantwn – Cyfleustra Gofal Preswyl – (Aros am ymateb Alan Lewis)

b) Rhif y Cais - PL/00227 – Plas Bach – Llangyndeyrn – Cyfleustra Potelu Llaeth – Dim Gwrthwynebiad

Gwaharddiad y Cyhoedd

2433 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2434 Derbyniwyd adroddiad ariannol Misoedd Gorffennaf ac Awst 2020. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2435 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

- a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Gorffennaf ac Awst)
- b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Gorffennaf ac Awst)
- c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Gorffennaf ac Awst)
- ch) HMRC (Treth)- £89.20 (Mis Gorffennaf)
- d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Gorffennaf ac Awst)
- dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Gorffennaf ac Awst)
- e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Gorffennaf ac Awst)- £182.00
- f) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau (Mis Gorffennaf) - £12.56
- ff) Torri Gwair – Mis Gorffennaf - £100.00
- g) HMRC (Treth) – £89.40 (Mis Awst)
- ng) Dwr Cymru – Toiledau'r Meinciau - £44.91
- h) Trwshio Meinciau yn y Plwyf - £681.00
- i) Torri Gwair – Mis Awst - £120.00
- l) Pwysau Glanhau yn y Plwyf - £650.00
- m) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau (Mis Awst) - £12.64
- n) Peiriant Argraffu Newydd - £149.99
- o) Atgyweirio Golau Toiledau'r Meinciau - £96.00

2436 Cyflymder Traffig trwy Crwbin a Llangyndeyrn
Penderfynwyd cysylltu a'r Cyngor Sir a'r Heddlu ynglŷn â chyflymder traffig trwy Grwbin a Llangyndeyrn.

2437 Cofeb Rhyfel Pontiets
Penderfynwyd cysylltu â'r British Legion ynglŷn a chyflwr Cofeb Rhyfel Pontiets.

2438 Tŷ Gwyn, Carwe
Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn a phroblemau ar y safle hwn.

2439 Heol y Meinciau, Pontiets
Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn a phroblemau glanhau ceir ar y palmant yn Heol y Meinciau, Pontiets.

2440 Parc Pontiets
Penderfynwyd bod y Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Clerc i gwrdd ym Marc Pontiets er mwyn edrych ar safle'r siglenni.

Cyfarfod nesaf:- 5 o Hydref 2020

Llofnodwyd..... **CADEIRYDD**

Dyddiad.....